


Llên natur

Bwletin 155
Ionawr 2021

gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach,
adnodd i blant, athrawon a rhieni,
ar y dudalen gefn



Beddgelert
6 Rhagfyr 2020
Llun Del d'Aubray
(Cymuned Llên Natur)

2021 - Blwyddyn Newydd Dda

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

(Rhif elusen: 1126027) **Cymdeithas
Edward Llwyd**



Dathlu'r Derig



Llun Alun Williams
"Derig, llun a dynnais yn Svalbard, Gorffennaf 2013"

Mae'r derig *Dryas octopetala* wedi ennill statws eiconig yng Nghymru - ddim mor enwog a Lili'r Wyddfa ond yn meddu ar hanes llawn mor rhyfeddol. Mae map ei ddsbarthiad yn dangos mai tyfu'n wyllt mewn UN sgwar yn unig yng Nghymru mae o (mae o'n bresennol wrth yr M4 hefyd yn y de, wedi ei gario yno mae'n siwr).

Ond beth ydi'r hanesion sy'n wneud yn eicon gudd? Wel gofynwn i'r ffotograffwyr:

●Alun Williams

Fel lili'r Wyddfa mae'r derig yn gyffredin iawn y tu allan i Gymru. "Derig, llun a dynnais yn Svalbard, Gorffennaf 2013. Planhigyn cyffredin iawn yn Svalbard, roedd yn tyfu yn garped gwyn ar y twndra.

●Wendy McCarthy

Mae'r derig fel arfer yn tyfu mewn llefydd anial ac oer. Tybed oes yna bryfed yn y lleoedd hyn i beillionni'r blodau?

Meddai Wendy McCarthy, "dyma lun o'r Derig efo *Bombus monticola* yn brysur yn peillio, wedi cael ei dynnu gan fy ffrind Julian Driver o Lanfairfechan,

dydd Iau diwetha [Mehefin 2014] ar Greigiau Gleision. Mae o'n deud fod o'n eu gweld nhw (*Bombus monticola*) yn rheolaidd ym mynyddoedd Eryri. Llun hyfryd, dw i'n meddwl!"

●Gerallt Pennant

Yng Nghwm Idwal mae'n tyfu ymysg llawer o flodau Arctig-Alpaidd eraill megis yn y llun hwn gan Gerallt Pennant ddiwedd mis Mai 2010 (ar ôl y gaeaf cynharaf ac oeraf mwyaf diweddar).

●Hywel Roberts

Erbyn dechrau Mehefin 2010 (Llun Hywel Roberts yn y cefndir) roedd yn parhau'n llawn blodau ond roedd y derig yn y greigle yn yr ardd wedi troi yn had rhan fwyaf erbyn y cyfnod hwn.

●Gill Brown

Mae'r derig yw gael yn ei had ond dyma rhybydd diogelwch: dim ond planhigion wedi eu prynu o ganolfan arddio sydd yn cael eu plannu yn yr ardd.

●Derig y Burren - Math Williams

Ond nid y mynydd a'r gogledd yw cynefin y derig POB amser. Mae'r derig yn blanhigyn mynydd o Oes yr Ia ond ar galchfaen y Burren yn Iwerddon mae'n tyfu'n helaeth yng nghanol mwynder Llif y Gwlff. Mae'n debyg mai lleoliaid greiriol (*relic site*) ydi hwn, poblogaeth sydd wedi parhau ers cyfnod Oes yr Ia..... neu yn hytrach ers yr ail oes iâ, sef Oes Iâ'r Derig (Cyfnod y *Dryas*).

Dyma drosiad gan y daearegydd Math Williams o hanes Oes Iâ'r Derig yn llyfr "*Ice, Mud and Blood*" gan Chris Turney (2008).

"Yn dilyn diwedd y *Late Glacial Maximum* [yr Oes Iâ go iawn] tua 18kya (18 mil o flynyddoedd yn ôl), roedd cyfnod cynnes ym

Mhrydain gyda phail coed mewn gwaddodion brown organic mewn llynnoedd yn dangos bod coedwigoedd yn gyffredin. Tymheredd cyfartalog yn yr haf oedd 17C [nid anhebyg i heddiw].

Tua 13kya mi oerodd yn sydyn iawn yng ngogledd Ewrop, a dyma ddechrau cyfnod y *Dryas* Diweddar (*Younger Dryas*). Gwelwn ym Mhrydain yn y cyfnod hwn waddodion o glai a silt llwyd ymhobman. Ond erbyn hynny roedd olion paill coed wedi diflannu a phail rhywogaethau'r Arctig fel *Dryas octopetala* wedi cymryd eu lle.

Tymheredd cyfartalog erbyn hynny yn yr haf oedd 10C (tebyg i ogledd Siberia heddiw) ac yn y gaeaf -20C. Roedd *permafrost* yng ngogledd Iwerddon, yr Alban a gwledydd Llychlyn - gwyddwn hyn oherwydd olion *pingos*. Ymledodd rhew parhaol unwaith eto yn ucheldir yr Alban.

Yn ystod y *Dryas* Diweddar roedd ymyl yr ardal iasoer yma (y Ffrynt Polar) yn ymestyn o gyffiniau de Newfoundland i ogledd Portiwgal (dyma ffin deheuol arferol mynyddoedd iâ [icebergs] yn y môr; heddiw mae'r ffin yn ymestyn o ogledd Newfoundland i ogledd Gwlad yr Ia.

Fe barodd y cyfnod oer hwn am tua 1200 mlynedd, dim ond 1200 mlynedd. Gorffennodd y *Dryas* Diweddar oer yn sydyn iawn 11.7kya pan fu gwresogi



Llun Julian Driver/Wendy McCarthy



Hywel Roberts yn y cefndir



Llun Gerallt Pennant, Cwm Idwal - Diwedd mis Mai 2010



Derig y Burren yn Iwerddon



Gill Brown, Derig yn yr ardd - Waunfawr 29 Mai 2020

syfrdanol, ac fe gododd tymheredd yr Arctig i fod 2C yn fwy na heddiw. Parhaodd y cyfnod cynnes yma hyd at 9kya yn Alaska, a than yn ddiweddarach ar draws canol Canada (lleoliad llen iâ Laurentia) a gogledd Ewrop.

Beth achosodd y newidiadau sydyn syfrdanol hyn felly?

Mwy na thebyg, newidiadau yn y Milankovicz cycles sydd wrth wraidd y newidiadau; a bod *feedback loops* yn gwneud newidiadau yn yr hinsawdd yn fwy eithafol a sydyn. OND mae rhai yn tybio bod y *Dryas* Diweddar yn ganlyniad i gomet ffrwydro uwchben gogledd America. Does dim llawer o brawf hyd yma. (Ymddengys nad oes cysylltiad rhwng Llyn Agassiz â chyfnod y **Dryas Diweddar** - ond darllenwch ymlaen.....)

Daeth y cyfnod mwyn i ben eto. Oerodd yr hinsawdd ym Mhrydain rhwng 8700 a 8200 mlynedd nôl. Achos gwreiddiol yr oeri, medd rhai, oedd i Lyn Agassiz wagio'n sydyn i ogledd yr Iwerydd ar ôl i argae iâ yn ardal Bae Hudson dorri - roedd yn llyn o ddŵr croyw tros ardal anferth (30,000km²) o ganol gogledd Canada; llyn a gasglodd wrth i'r llen iâ gilio. Roedd dau ganlyniad uniongyrchol: (1) cododd lefel y môr gan 1.4m; a (2) ataliwyd y cerynt o ddŵr oer hallt sydd fel rheol yn llifo'n ddwfn ar hyd ffin cyfandirol dwyrain gogledd America i'r Caribi, ac sy'n codi ym môr y Sargasso ac yn ei dro yn gyrru Llif y Gwlff yn ôl atom ni. Ataliwyd llif y Gwlff, ac oerodd gogledd Ewrop gan 2°C a symudodd yr ardaloedd o lawiad mawr tua'r de. Tua'r un adeg, tua 8300 blwyddyn yn ôl, torrwyd Prydain oddiwrth Ewrop i greu ynys; boddwyd tir isel i greu y Môr Du hallt; a lledaenodd ffermio'n sydyn ar draws Ewrop o ardal y Cilgant Ffrwythlon. Mae'n siwr eu bod i gyd yn gysylltiedig."

Ond nid y mynydd a'r gogledd yw cynefin y derig POB amser. Mae'r derig yn blanhigyn mynydd o Oes yr Iâ ond ar galchfaen y Burren yn Iwerddon mae'n tyfu'n helaeth yng nghanol dylanwad mwynder Llif y Gwlff. Mae'n debyg mai lleoliaid greiriol (*relic site*) ydi hwn, poblogaeth sydd wedi parhau ers cyfnod Oes yr Ia..... neu yn hytrach ers yr ail oes ia, sef Oes Ia'r Derig (Cyfnod y Dryas)

Dryas octopetala: Mae'r enw Lladin yn cyfeirio at yr 8 petal, a'r enw Cymraeg DERIG yn cyfeirio at y dail tebyg i ddail derw bychain. Der (=derw) ac -ig (bachigyn fel oenig, afonig. Mae'r terfyniad -ig yn cael ei ddefnyddio llawer amlach yn y Llydaweg i'r un perwyl.)

Chwythu'r corn galw



Neil o Ddinorwig (crefftwr gwneud a chanu offerynnau pren) sy'n chwythu'r corn

Mae hwn yn fwy na 'chragen gong' at ddibenion addurniadol yn unig. Mae'r pigyn ar ei flaen wedi ei dorri yn dwll i chwythu fel trombón. Galw'r gweithwyr o'r caeau at eu bwyd oedd ei bwrpas wedyn - Cofnod ar **Wefan Llên Natur** (Gwefan Natur i Bobl Cymru - www.llennatur.cymru). Cyhoeddwyd hanesion eraill am y corn galw ym **Mwletin 127** (tudalen 4). Dywedodd Ifanwy Rhisiart wrthym, yn wreiddiol o Fetws Garmon, am ei chof o'i nain yn y 50au yn galw drwy'r corn ar ddydd Nadolig i ddyuno'n dda i'w chymdogion dros yr afon Gwyrfa. Croeso i hanesion eraill am darddiad y cregyn conc ym mhellafion byd, a'u haddasiad i gyrr galw.

... oherwydd achosion Cofid19

Eira gan John Glyn Jones

Un bluen wen hamddenol - yn ysgafn
ddisgyn yn ysbeidiol
a wna i ni droi yn ôl,
wna esgus i gau'r ysgol



Neges Rhagfyr 2020: Mae'n bechod gweld ysgolion yn cau oherwydd achosion Cofid 19.


Dwi'n siwr y byddai well ganddom ni gau ysgolion am ddiwrnod neu ddau oherwydd eira!!! Cadwch yn saff a diogel.

Robin Williams

Bydd y neges hwn yn ddilys ar ddechrau'r flwyddyn 2021. Cadwch yn saff a diogel eleni!

Tîm Llên Natur

Y Bywiadur



...ar wefan **Llên natur**

Geiriadur rhywogaethau Cymru, y byd a Phatagonia y mis yma!

Dofi a hyweddu – oes gwahaniaeth?



Byfflo, un o anifeiliaid mwyaf peryglus Affrica - Botswana 2011 (Llun Alun Williams)

Fel holl anifeiliaid Affrica, ni chafodd y byfflo ei hyweddu erioed, hyd yn oed hyd heddiw, am resymau oedd a wnelo nhw â natur yr anifeiliaid eu hunain, nid oherwydd unrhyw anallu dynol.

It's true, of course, that some large African animals have occasionally been tamed. Hannibal enlisted tamed African elephants in his unsuccessful war against Rome, and ancient Egyptians may have tamed giraffes and other species. But none of those tamed animals was actually domesticated – that is, selectively bred in captivity and genetically modified so as to become more useful to humans. Had Africa's rhinos and hippos been domesticated and ridden, they would not only have fed armies but also have provided an unstoppable cavalry to cut through the ranks of European horseman. Rhino mounted Bantu shock troops could've overthrown the Roman Empire. It never happened.

Guns Germs and Steel - a short history of everybody for the last 13,000 years, Jared Diamond 1997

Cyfieithwch! Mi welwch y drafferth!

Mae'r gwahaniaeth rhwng *to tame* a *to domesticate* fel cysyniadau yn waelodol bwysig i'n dealltwriaeth o hanes y ddynoliaeth meddai Diamond. Mae ein hanes ynghlwm wrth y broses o hyweddu anifeiliaid a phlanhigion. Ac eto does dim gair sefydlog gennym yn y Gymraeg i wahaniaethu rhwng y ddau gysyniad gwahanol hyn. (Yn Ffrangeg mae *apprivoiser* a *domestiquer* yn yr Almaeneg mae *zähmen* a *domestizieren*).

I haneswyr Ewrosentrig y Gorllewin efallai nad yw'r gwahaniaeth rhwng dofi a hyweddu yn fater o bwys, hyd yn oed i'r rhai sy'n defnyddio'r ieithoedd mawr fel Saesneg neu Ffrangeg. Ond i haneswyr mwy blaengar sy'n ceisio gweld hanes trwy brism yr holl ddynoliaeth ac nid trwy sbienddrych 'gwareiddiad' yn unig, o helwyr troed-noeth â'u gwaewffyn, i'r gwladwriaethau mwyaf metropolitaidd, cânt oll eu gweld fel rhan o stori Teulu Dyn. Dyna mae Diamond yn ein cymhell i'w wneud, ac mae diffinio'r gwahaniaeth rhwng dofi a hyweddu yn allweddol i'r stori honno.

Pam felly bod hyn mor bwysig?

Wel, mae paragraff Diamond uchod yn ddigon o glw. Thesis Diamond yw bod pob cymdeithas dyn, yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi llwyddo i feistrolu bywyd yn ei gynefin beth bynnag bo natur y cynefin hwnnw (eira'r Arctig, peithdir America, fforestydd trofannol Affrica neu'r ddinas fwyaf) yn brawf o'u llwyddiant, am y tro. Mater arall yw eu gallu neu anallu i ddygymod ag amgylchiadau eu dyfodol.

Felly, sut mae 'moderneiddio'r' iaith Gymraeg i gwmpasu'r ddau gysyniad hwn. Ynteu a oes angen - dim ond sefydlogi ystyr geiriau sydd eisoes yn bod?

Dofi, Hyweddu a Dafad!

I'n helpu gyda'r erthygl am ddofi a hyweddu dyma'r eirfa yn ôl GPC: [Dolen: Erthygl llawn ac enghreifftiau](#)

• dofi

Gwneud yn ddoef, gwarhau, dwyn dan yr iau, ffrwyno, darostwng, trechu; llonyddu, tawelu, lleddfu: *to tame, bring under the yoke, restrain, subdue, overpower; calm, appease, allay.*

• hyweddu

Dwyn dan yr iau, torri (ceffyl) i mewn, dofi, gwneud yn dirion, gwneud yn hyblyg, lleddfu, tawelu, gwareiddio, darostwng; dwyn i fyny, cyfarwyddo, hyfforddi, tueddu, cymhwyso, addasu; mynd yn hyweddu, bod yn dirion, llaesu, cydymffurfio, ymgymhwyso, ymaddasu, ymarfer; ?bod yn weddus: *to yoke, break in (a horse), tame, domesticate, make gentle, make pliant, subdue, pacify, civilize, subjugate; bring up, instruct, train, adapt; become tractable, be gentle, conform, adapt oneself, be trained; ?be seemly.*

Wrth gwrs mae cryn gorygffwrdd rhwng y ddau ddiffiniad yma ond mae hyweddu yn agosach i ystyr *domesticate*. Onid pwrpas iaith yn y pen draw yw cyfleu ystyr sydd angen ei gyfleu. Awgrymaf y dylem ddod i arfer defnyddio 'hyweddu' am gyflwr rhywogaeth (megis dafad*) o fod wedi byw dros ganrifoedd mewn perthynas glôs lled cyd-lesol â Dyn a chyfyngu ein defnydd o'r term 'dofi' i olygu cyflwr anifail unigol mewn perthynas a pherchen unigol (megis llwynog unigol wedi ei gyflyru i sefyllfa ddomestig ddynol). Oes yna enghreifftiau eraill o dynhau ystyr fel hyn i ateb galw cyfoes.

• Mae'r gair dafad yn ddiddorol yn hyn o beth

Y ffurf gyffredin yn rheulu mawr yr ieithoedd Indo-Ewropeidd am 'dafad' yw amrywiadau ar y Lladin *ovis*. Dyma nhw: *ovis* (Lladin), *овец* (sillafu *ofiets*: Rwseg), *авечак* (Belarwseg), *овецъ* (Wcraneg), *avis* (Lithwaneg), *owca* (Pwyleg), *oaie* (Rwmaneg), *ovce* (Slofeneg), *ovaca* (Croateg), *ovella* (Catalaneg), *oveja* (Sbaeneg), *ovella* (Galiseg), *ovelha* (Portiwgaleg), *овца* (Serbeg), *овцу* (Macedoneg), *овца* (Bwlgareg). *Ardi* yw dafad yn y Fasgeg, un o'r ychydig ieithoedd Ewropeidd nad yw'n aelod o deulu'r ieithoedd Indo Ewropaidd.

Ymhle mae'r amryw o ieithoedd Germaneg yn y drefn hon, hwythau hefyd yn ieithoedd o'r teulu mawr Indo-Ewropeidd? Ffuriau cytras â'r Saesneg *sheep* sydd gan rheiny. A beth am y Gymraeg gyda'i gair dafad, hithau hefyd o dras Indo-Ewropeidd. Ydi hynny'n golygu eu bod nhw ar ganghennau gwahanol o'r cyff Indo-Ewropaidd? Dim o'r fath beth.....!

Mae'r elfen *ovis* yn fyw ac yn iach yn y gair *ewe* (sylwch ar y ffurf Rwmaneg uchod). A'r Gymraeg...? Wel, mae'r drefn *ovis* hefyd yn ffynnu yn y Gymraeg - yn ein gair oen.

• A beth wnelo hyn â dofi a hyweddu?

Does dim angen edrych pellach na chynnig ysgolheigaidd Geiriadur Prifysgol Cymru ar darddiad dafad: dafad [H. Grn. *dauat*, gl. *ovis*, Crn. *dauas*, Llyd. *dañvad*: < Clt. **damat-* 'creadur wedi ei ddofi' o'r gwr. **domā-*, *dāmā'dofi'*, fel yn y Llad. *domitus* 'dofedig']. Anifail dofedig ydi dafad felly. Ond 'dofedig' yn yr ystyr ei bod hi o hil sy'n rhan o gymdeithas dyn, hynny yw, wedi ei hyweddu.

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, bob mis!

Cysylltwch gyda ni:

llennatur@yahoo.co.uk

**Llên
natur**

Rwb Chwarel Vivian, mis Rhagfyr 2020



Lluniau gan Gwilym Evans (gyda chaniatad)

Nodyn gan Eifion Roberts, Llanberis heddiw: ‘Dyma'r ddau lun o'r 'rwb' a ddisgynnodd yn Chwarel Vivian fore heddiw, 26ain o Dachwedd 2020, am tua 8 o'r gloch y bore.

Mae rhai yn son fod yna dri swm ar ôl eu gilydd - efallai fod y 'rwb' wedi syrthio drwy 3 lefel! Ystyr y gair 'rwb', sy'n rhan o lafar gwlad ardal chwareli llechi ers tua 150 o flynyddoedd, ydi RWBel- o'r Saesneg "rubble". Mi ddois ar draws cofnod mewn papur newydd yn son am ddamwain yn Chwarel Dinorwig pan oedd 4 o ddynion yn gwrthio wagen yn llawn 'rwb', dros ymyl y 'domen'. Fe aeth dillad un o'r 4 yn sownd yn y wagen, ac fe lusgwyd ef, a'r wagen, dros ochr y domen- ac fe'i lladdwyd!

Eifion Roberts



Llun Angharad Harris

Llun Paul Gannon

Llun Angharad Harris

Tyst agos arall oedd Paul Gannon: “Rockfall in Vivian Quarry this morning with a mass of debris littering the levels below the rockfall itself. The fall has exposed a dolerite dyke on one of the fall surfaces. There's also a widening crack just above the site of the rock fall suggesting further falls make well take place.”

Roedd yna gyfnod eitha gwlyb yr wythnos o flaen y rwb, yn ôl cofnodion y Tywyddiadur Llên Natur: Gwefan Natur i Bobl Cymru - Gartref (llennatur.cymru) **Tybed a'i asiad gwan oedd yn cysylltu'r llechen wrth y Dolereit?**

- Disgyrchiant: Roedd crac mawr uwchben y safle yma ers blynyddoedd. **Paula Roberts**
- Rhew? Di ffeindior gwendid yn y graig [ond nid rhew diweddar – does dim wedi bod]. **Aled E. Jones**
- Dyma luniau [de uchod] o'r wythnos flaenorol yn dangos lleithder yn teithio trwy'r graig... Mae'r ardal sydd wedi dymchwel yn y cysgodion llaith. Tynnwyd y llun ar y 29ain o Dachwedd, tua 4pm **Angharad Harris**

Trowyntoedd Llyn y Gadair



Llyn y Gader - Llun Jeremy Williams, 3 Awst 2010

Oes yna rhywbeth arbennig am Llyn y Gadair sy'n sbarduno trowyntoedd? Gweler tudalen flaen

Bwletin.47, 29 Tachwedd 2015.


www.llennatur.cymru

“Anhygoel! [meddai Nigel Pitts] Llyn y Gader, Rhyd Ddu: Am dri o'r gloch y pnawn roeddwn yn cerddad y sarn ar lan Llyn y Gadair efo fy nhad pan ymddangosodd trowynt yng nghanol y llyn. Mewn eiliada yn unig, tyfodd y trowynt gan chwyrlio'n wyllt a chodi galwyni o ddŵr i'r awyr. Gwibiodd yr un pryd i gyfeiriad y de-orllewin ac, mewn dim o dro, yr oedd tua maint tŷ deulawr, pedair stafall wely, ac yn hollol wyn gan y dwr sylweddol yn ei afael - doedd dim modd gweld drwyddo o gwbl. Yn sydyn, collodd y gwynt ei nerth a disgynnodd yr holl ddŵr yn ôl i'r dyfroedd. Roedd y cwbl drosodd mewn ugain eiliad. ANHYGOEL! O fewn ugain munud gwelsom bump trowynt arall oedd ychydig o fetrau ar draws, yn unig. Un peth arall, diddorol, oedd gweld y gwynt yn hyrddio i ddau gyfeiriad hollol groes i'w gilydd. Rhyw dair blynadd yn ôl darllenais adroddiad papur newydd yn adrodd hanas trowynt arall yn yr ardal. Ni allaf gofio'r manylion yn anffodus.

Nigel Owen Pitts

Dau drowynt arall - Dyma **adroddiad** am ddau drowynt arall (**Bwletin Llên Natur, Rhif 48 - tudalen olaf**), un o Abergeirw o drowynt wrth hel gwair yn y 1940 cynnar ac un tebyg yng Nghricieth tua 1971.

Y Cnicht



Llun Catherine Penrose, 12 Rhagfyr 2020

Y Gwenynwyr Cychod Gwellt



Gwenynwyr cychod gwellt yn yr Iseldiroedd, pin ac inc by Pieter Bruegel (1568) - Codwyd o hen rifyn y Sunday Times



38 twll mur gwenyn stad Dolmenynllyn, Ganllwyd. Y fwyaf yn y wlad! Idris Jones



Gweddillion mur gwenyn yng nghoeddydd Maentwrog
Llun: Graham Williams

Llun Pieter Bruegel

Mae llun Pieter Bruegel yn dangos gwenynwyr cychod gwellt (sgepiau) yn yr Iseldiroedd. Mae'r ffigwr sy'n dringo'r goeden yn dwyn nyth gwyllt i roi yn y cychod am y flwyddyn (nid oedd heidiau gwenynwyr yn barhaol yr adeg honno fel dwi'n deall?) Sbiwch ar yr adeilad bach yn y cefndir ar y dde - 'mur gwenyn'? DB

Trysorfa o enwau

Mae trysorfa o enwau 'gwenynnaidd' yn Nghronfa Enwau Lleoedd Melville Richards, ee. MUR GWENYN DOLBENMAEN *Caernarvonshire*; Murgwenyn CAERN XXXIV NE OS 6" SH5841 23/54(58-41). Mae ambell enw lle hefyd yn awgrymu pa fath o gynefin a ddefnyddid i godi'r muriau gwenyn arnynt ac i gadw'r cychod gwellt - 'Coetgae'r Gwenyn' (Hendrebifa, Fflint) er enghraifft yn awgrymu hen goedwig a ddefnyddid i bori anifeiliaid (moch efallai gan fod adfeilion cytiau moch ac enwau lleoedd yn cyfeirio at foch (Dolymoch a Creua, Maentwrog) weithiau gerllaw iddyn nhw.

Meddai'r gwenynwr Idris Jones: Dwi'm yn gwybod rhyw lawer am yr hen gychod gwenyn gwellt, ond mae'n siwr y byddai cynllyn y "sgep" wedi newid o ardal i ardal ac o wlad i wlad; rwy'n cymeryd mai yn yr Iseldiroedd roedd yr arlunydd yn gweithio. Pe byddai y gwenyn lleol yn neulltuol o gynhyrchiol, byddai'r cychod yn fwy o faint, o bosib? Nid oedd ffordd o dynnu'r mel o'r hen deip o gwch heb ddifa'r coloni, felly, byddai'r gwenynwr yn llosgi'r sgep gwellt. Mae'r dulliau modern yn llawer llai brwnt!

Mur 38 twll!

Mae 38 twll neu "bole" ym mur gwenyn stad Dolmenynllyn, Ganllwyd (uchod). Y fwyaf yn y wlad! Mae'r tyllau yn gymharol fychan fel gwelwch chi, ac felly mi fyddai'r sgep lleol wedi bod yn dipyn llai na'r uchod.

Idris Jones

Ai adnewyddiad o adfail oedd rhain?

Llên Natur

Yng Nghymru

Roedd muriau gwenyn - ac felly'r arfer o wenynna gyda cychod gwellt neu sgepiau - yn weddol gyffredin yng Nghymru ers talwm. Dyma gweddillion mur gwenyn yng nghoeddydd Maentwrog (llun: Graham Williams) un o nifer o adfeilion ger hên ffermdy yng Nghoed Glanrafon, GNG Coedydd Maentwrog. Llên Natur

Meddai'r hanesydd Nia Watkin Powell: fu Bill Linnard yn ysgrifennu am furiau gwenyn yng nghyffiniau Maentwrog yn yr wythdegau ac efallai y byddai'n werth edrych ar yr hyn a ysgrifennodd. Yr oedd fferm o'r enw Mur Gwenyn ym Mhrenteg, ac mae gennyf ryw syniad bod olion yn dal yno, ond dydw i ddim yn siwr.

Nia Mair Watkin Powell

Dydyddiadur Owen Thomas, Henllan

Y gwaith mae Nia efallai yn cyfeirio ato yw cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg gan Linnard o ddyddiadur Llên Natur Owen Thomas, Henllan. Mae'n cofnodi ei fywyd pob dydd ond hefyd ddyddiadau heidio ei wenyn dros y tymhorau. Mae 105 o'i gofnodion ganddo yn Nhywyddiadur Llên Natur, mewn Cymraeg rhywiog (unigryw yn y Gymraeg yn y 18ed ganrif?) rhwng 1739 a 1796, i'w gweld trwy'r ddolen biws. Dyma flas ar ambell un: [Llên Natur: Gwefan Natur i Bobl Cymru - Gartref \(llennatur.cymru\)](#)

Gorffennaf 1772: ... haid gynta or cwch arall Gorphenaf y 7 fed dudd gyru yr hen gwch a heidiodd gynta, Gorphen. y 7, gyru yr hen gwch arall Gorphenaf y 17.

Medi 1744: Glaw yn amal trwy'r cynhauaf, yn enwedig y 13 o Fedi y bu llifeiriant mawr; y cynhaua hwn a aeth yn o ddiweddar a cholledion mawr ar yde [yda], gan y llanw yn agos ir mor, gan y llifeiriant yn agos ir afon, a chan y gwunt ar leoedd uchel, a phrynu mawr ar yde ir mor [o'r môr efallai,hy. Wedi eu prynu o'i ffwrdd?] Etto ni bu ddim drudaniaeth [prinder] y flwuddun honno.

Dyn Eira - llun cyntaf erioed?



Llun Mary Dillwyn o ddyn eira a dynnwyd o gwmpas 1853

Llun Mary Dillwyn o ddyn eira a dynnwyd o gwmpas 1853. Ai dyma'r llun cynharaf o ddyn eira?

Ifor Williams

Cafwyd digon o eira y flwyddyn honno (os honno oedd y flwyddyn gywir) ond yn ddifyr iawn cafwyd eira ym mis Mai a Mehefin y flwyddyn honno:

Mehefin 1853 - Lle: Cymru Ffynhonnell: Radio Cymru 29 Rhagfyr 2012

●**Nodiadau:** Adroddiad archif ar Radio Cymru yn son am eira yng Nghymru ym Mai a Mehefin 1853. Mae dyfnder yr eira a'r brwgaidj diddail yn y cefndir yn awgrymu gaeaf. Os nad oes plentyn yn y golwg ti'n meddwl? Mae nhw yn eu dillad dydd Sul hefyd! "Oedd yna draddodiad bod oedolion yn gwneud dyn eira? Rhywbeth i gadw'n gynnes..." awgrymodd Ifor.

Patagonia - Iluniau Luis Carrizo




●Ñanco ●Bwncath amrywiol
●*Geranoaetus polyosoma*




●Tordo ●Aderyn gwartheg gloyw
●*Molothrus bonariensis*



●Chwiwell Magellan (Hwyaden Picazo)
●*Anas sibilatrix*



●"Teyrn saith lliw" ●*El sietecolores*
●*Tachuri rubigastra* ●Llyn la Zeta, Esquel



●Condor yr Andes ●*Còndor Andino*
●*Vultur gryphus* ●Esquel



●Cabure ●Cordylluan Patagonia
●*Glaucidium nana* ●Chuncho



●Cnocell Magellan ●*Campephilus magellanicus*
●Esquel



●*Choique* ●Rhea bach
●*Pterocnemia pennata* ●Trevelin



●Afon Nant y Fall yn Nhrevelin



●Fflamingos Chile ●*Phoenicopterus chilensis*



●*Martín Pescador Grande*
●Pysgotwr torchog ●*Megaceryle torquata*
●Parc Cenedlaethol Los Alerces, Esquel



●*Culpeo* ●Llwynog yr Andes ●*Lycalopex culpaeus magellanicus* ●*Zorro culpeo*



Clwb y Llygaid Bach



ADNABOD Y BRAIN DUON

Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd

Ar yr arfordir
Gweddol brin

Pîg coch



Coesau coch

1



Llygaid gwyn

Gwddf byr

Gwegil llwyd
Yn parablu!
Sefyll yn syth



4



Pîg llwyd olau

Crawcian fel
Brân dyddyn
hefo dolur gwddf!



Gwddf angen eillio. 'Trowsus' am ei goesau!

2



Plu fel ffan pan mae'n hedfan



Crawcian cras

5



Mwy o faint na'r gweddill

Crawcian

Pîg trwchus



Cynffon siâp diemwnt wrth hedfan

Gwddf blêr—angen eillio!

3



Yn ddu, gwyn a du-las



Clebran yn uchel a rhuglo!

6



Enw'r Frân	Pa Rif?	Pwynt
Jac y do	_____	10
Brân dyddyn	_____	20
Ydfran	_____	15

Enw'r Frân	Pa Rif?	Pwynt
Pioden	_____	10
Cigfran	_____	30
Brân goesgoch	_____	20